# Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2022 – Mawrth 2023




www.wedinos.org

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Prif Ffigurau 2022/23 | 3 |
| Safbwynt Ehangach . . . . . | 4 |
| Darlun o Gymru | 5 |
| WEDINOS . . . Samplau | 6 |
| Y Prif Ganfyddiadau . . . Beth? | 6 |
| Lleoliadau yn y Gymuned | 8 |
| Samplau o'r Gymuned: Beth? | 9 |
| O'r Gymuned: Sut? | 11 |
| Bensodiasepinau | 14 |
| Nitasinau | 18 |
| WEDINOS a Nitasinau | 20 |
| Xylazine | 21 |
| WEDNIOS a Xylazine | 22 |
| Lleoliadau Economi'r Nos a Gwyliau Cerddoriaeth | 23 |

# Rhagair

Fis Medi 2013, cafodd rhaglen **WEDINOS** ein sampl gyntaf: powdr gwyn, anhysbys o Gasnewydd a ddaeth i law drwy Kaleidoscope. Drwy ein gwaith dadansoddi, canfuwyd mai para-cloroamffetamin, amffetamin, benzocaine ac N-Ethylnorketamine oedd y sylwedd hwn. A dyna fan cychwyn rhaglen archwilio cyffuriau sy'n gwbl unigryw yn y Deyrnas Unedig.

Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae **WEDINOS** wedi prosesu bron i 30,000 o samplau sydd wedi'u cyflwyno gan aelodau'r gymuned, gwasanaethau cyffuriau, darparwyr gofal iechyd, lleoliadau cyfiawnder troseddol, lleoliadau economi'r nos, a ffynonellau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach. **WEDINOS** yw'r rhaglen archwilio cyffuriau ehangaf yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n rhan ganolog o'r strategaeth i leihau niwed yma yng Nghymru.

Dros y degawd diwethaf, mae'r galw am ein gwasanaethau wedi cynyddu. Fel y gwelir yn yr adroddiad hwn, yn y flwyddyn ddiwethaf prosesodd **WEDINOS** bron i 6,700 o samplau, sef teirgwaith yn fwy nag a brosesodd bum mlynedd yn ôl. Daeth bron i 5,000 o'r rhain o ffynonellau yn y gymuned, sy'n dangos y gwaith pwysig mae'r rhaglen yn ei wneud wrth fonitro tueddiadau mewn cyffuriau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n galluogi **WEDINOS** i dynnu sylw at sylweddau newydd sy'n ymddangos yn y farchnad gyffuriau, a allai fod yn beryglus, fel nitasinau ac xylazine. Mae'n ein galluogi i roi rhybuddion i gymunedau a chreu negeseuon newydd i leihau niwed.

Ymhlith y sylweddau seicoweithredol a ddaw i law, mae'r adroddiad yn dangos mai bensodiasepinau o hyd yw'r grŵp mwyaf cyffredin a ganfyddir. Canfuwyd cyfanswm o 18 ohonyn nhw. Mae gwaith dadansoddi **WEDINOS** drachefn yn amlygu pryderon am amnewid sylweddau ym marchnad gyffuriau'r Deyrnas Unedig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bromazolam oedd y bensodiasepin mwyaf cyffredin a ganfuwyd, ac fe'i prynwyd gan amlaf gan bobl a oedd yn credu eu bod nhw'n prynu diazepam. Ond gan fod bromazolam yn gryfach na diazepam, mae hyn yn creu risg uwch o niwed a gorddos gan na fydd cwsmeriaid unigol yn deall beth yw'r dos, pryd fydd yr effeithiau'n dechrau, am ba hyd y bydd yr effeithiau hynny'n para, na'r gwrtharwyddion â sylweddau eraill.

Mae **WEDINOS** yn parhau i roi gwasanaeth pwysig, hygyrch o ansawdd da sy'n rhan hollbwysig o'r ymateb i leihau niwed yng Nghymru. Diolch o galon i dîm **WEDINOS**, i'r partneriaid sy'n cydweithio â ni, ac i bawb sy'n cyflwyno samplau i sicrhau bod y gwaith gwerthfawr hwn yn parhau.

**Yr Athro Rick Lines,**
Pennaeth Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arweinydd Rhaglen **WEDINOS**

# Prif Ffigurau 2022/23

**Cyfanswm hyd yma:**
33,917 o samplau wedi dod i law
29,954 wedi'u dadansoddi


- 641 o sylweddau wedi'u canfod naill ai ar eu pennau'u hunain neu ar ffurf cyfuniad o sylweddau.
- Dros 300 o sefydliadau a gwasanaethau -
  Gan gynnwys: Adrannau Achosion Brys, Timau Iechyd Lleol, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Gwasanaethau Tai a Digartrefedd, Canolfannau Addysg, Darparwyr Hyfforddiant, Lleoliadau Economi'r Nos, Gwyliau, Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol a Charchardai Cymru.
  Darparwyd samplau hefyd gan unigolion nad oedd yn ymwneud â gwasanaethau neu'n defnyddio gwasanaethau.

**Eleni, 2022/23:**

- 7,744 o samplau'n dod i law, sy'n gynnydd o 7,457 yn 2021/22
- 6,656 wedi'u dadansoddi o 6,345.
- Cynyddodd samplau o'r gymuned i 4,979 o 4,684.
- Canfod 185 o sylweddau o 181
- 75 o wahanol sefydliadau, gwasanaethau a lleoliadau economi'r nos.
- Canolrif oedran y rhai sy'n darparu samplau oedd.
- Fel yn y pum mlynedd flaenorol, bensodiasepinau oedd y dosbarth o sylweddau sy'n newid y meddwl/seicoweithredol a ganfuwyd amlaf; canfuwyd 18 ohonyn nhw.
- Cocên oedd y sylwedd a ganfuwyd amlaf.
- Bromazolam oedd y sylwedd a ganfuwyd amlaf yn y gymuned, ac yna MDMA.
- Cocên oedd y sylwedd a ganfuwyd amlaf yn economi'r nos.
- Lleoliadau cyfiawnder troseddol – Derbynnydd Canabinoid Synthetig

benzodiasepinau
bromazolam
cocên
MDMB-4en-PINACA

**Ffigur 1: Nifer y samplau sydd wedi dod i law WEDINOS bob blwyddyn**



# Safbwynt Ehangach . . .

## Amcangyfrifon Byd-eang, Ewropeaidd, Cymru a Lloegr, a Chymru:

Y 10fed flwyddyn

Fis Hydref 2023 bydd hi'n ddeng mlynedd ers lansiad rhaglen **WEDINOS**, ac yn ddeng mlynedd hefyd ers i'r sampl gyntaf ddod i law, cael ei dadansoddi, a chyhoeddi'r canlyniad. Powdr gwyn anhysbys oedd hwn, a gyflwynwyd drwy un o'r gwasanaethau cyffuriau yn y gymuned. Ar ôl dadansoddi'r sampl a oedd wedi achosi effeithiau annisgwyl, sef gwaedlin o'r trwyn, iselder, a theimladau hunanladdol, cafodd y sampl ei phroffilio a gwelwyd ei bod yn cynnwys para-cloroamffetamin, amffetamin, N-ethylnorketamine a benzocaine.

Ers hynny mae **WEDINOS** wedi monitro tueddiadau cyffuriau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan gael gwybodaeth gan bartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, a rhannu gwybodaeth â nhw yn eu tro. Y nod yw lleihau niwed drwy barhau i roi gwybodaeth amserol a phragmataidd i bobl sy'n defnyddio cyffuriau a phobl sy'n gweithio neu'n gofalu am bobl sy'n defnyddio cyffuriau.

Yn **fyd-eang**, mae Swyddfa Cyffuriau a Throseddu'r Cenhedloedd Unedig (UNODC) yn amcangyfrif bod tua 284 miliwn o bobl wedi defnyddio cyffuriau yn 2020, sy'n cyfateb i 5.6 y cant o'r boblogaeth fyd-eang rhwng 15 a 64 oed. Mae'r ffigur hwn yn gynnydd o 26 y cant ers 2010. Mae'n cynnwys amcangyfrif bod 11.2 miliwn o bobl yn chwistrellu cyffuriau, ac nid oedd gwahaniaeth amlwg ers y flwyddyn flaenorol yn hynny o beth (2020 o'i chymharu â 2019). Amcangyfrifir bod 38.6 miliwn o bobl yn dibynnu ar gyffuriau a/neu bod angen gwasanaethau triniaeth arnynt. Pobl sy'n defnyddio canabis neu opioidau yw mwyafrif yr unigolion hyn.[1.]

Amcangyfrifodd yr Astudiaeth Fyd-eang o Faich Clefydau y bu 494,000 o farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yn 2019. Dyma gynnydd o 17.5 y cant yn y marwolaethau a briodolir i gyffuriau rhwng 2009 a 2019.

O blith y marwolaethau hynny, roedd 366,000 ohonyn nhw'n ymwneud yn anuniongyrchol â defnyddio cyffuriau, e.e. clefyd yr afu oherwydd hepatitis, HIV ac AIDS, a hunan-niweidio yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau.

366,000 o farwolaethau ar ôl defnyddio cyffuriau

Roedd marwolaethau a briodolwyd i anhwylderau defnyddio cyffuriau (128,000) yn gyfrifol am 26 y cant o'r marwolaethau, ac o'r rheini, cyfrannodd anhwylderau defnyddio opioidau at 69 y cant, neu 88,000, o'r marwolaethau.[2.]

Yn yr Undeb Ewropeaidd, dywedodd Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) fod tua 83.4 miliwn o bobl, neu 29 y cant o'r boblogaeth rhwng 15 a 64 oed, wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon o leiaf unwaith yn eu bywydau. Roedd dros 22 miliwn o bobl yn dweud eu bod nhw wedi defnyddio cyffuriau o'r fath yn y flwyddyn ddiwethaf.[3.*]

Yn y Deyrnas Unedig, yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, wrth drafod camddefnyddio cyffuriau: yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, roedd tua 3 miliwn o bobl, neu 9.2 y cant o oedolion rhwng 15 a 59 oed, wedi cymryd cyffur yn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd tua 1 o bob 5 o bobl rhwng 16 a 24 oed, sef 18.6 y cant, eu bod wedi cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Canabis yw'r sylwedd mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig, ac mae hwn wedi'i enwi ers i gofnodion o'r fath ddechrau yn 1995. Ni fu newid yng nghyffredinedd y defnydd o gocên yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 o'i chymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020.[4.]

1. UNODC - World Drug Report 2022 (Cyhoeddiad y Cenhedloedd Unedig, Rhif Gwerthu E.21.XI.8), https://www.unodc.org/res/wdr2022/MS/WDR22_Booklet_2.pdf [fel ar 2 Mai 2023]
2. UNODC - World Drug Report 2021 (Cyhoeddiad y Cenhedloedd Unedig, Rhif Gwerthu E.21. XI.8), https://www.unodc.org/res/wdr2021/field/WDR21_Booklet_2.pdf [fel ar 2 Mai 2023]
3. Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2022), European Drug Report 2022: Trends and Developments, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg https://www.emcdda.europa.eu/publications/edr/trends-developments /2022_en [fel ar 2 Mai 2023]
4. Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2021/22; Drug misuse in England and Wales: year ending June 2022. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationand commu nity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingjune2022 [fel ar 2 Mai 2023]

* This should be regarded as a minimum estimate due to reporting biases.

# Darlun o Gymru

Mae'r prif ffigurau dros dro ar gyfer amcangyfrifon o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yng Nghymru**, gan gynnwys poblogaethau nad ydyn nhw mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau, yn awgrymu bod cyfanswm o 51,110 o ddefnyddwyr cyffuriau problemus yn 2020-2021 (cyfwng hyder o 95 y cant, 38,100 – 68,340).

Bu 17,396 o asesiadau (15,215 o unigolion unigryw) o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2021-22, sy'n cynrychioli cynnydd o 0.8 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (17,259 o asesiadau). O blith yr unigolion a aseswyd:

- Cleientiaid â oedd a phroblemau alcohol yn bennaf oedd 7,423 (48.8 y cant)
- Cleientiaid â oedd a phroblemau cyffuriau yn bennaf oedd 6,730 (44.2 y cant)
- Nid oedd sylwedd wedi'i gofnodi yn achos 1,062 (7.0 y cant)

Ymhlith yr asesiadau o ddefnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus, opioidau, a heroin yn enwedig, oedd y prif sylwedd mwyaf cyffredin, gyda 2,808 o asesiadau (37.0 y cant). Canabis oedd y sylwedd a enwyd amlaf wedyn, gyda 1,663 o asesiadau (21.9 y cant). Mae nifer yr asesiadau sy'n enwi cocên fel y prif sylwedd wedi cynyddu o 928 yn 2016-17 i 970 yn 2021-22. Dyma gynnydd o 4.5 y cant ac mae'n cynrychioli 12.8 y cant o'r holl atgyfeiriadau at wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn 2021-22.

Yng Nghymru, yn gyffredinol, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty am wenwyno drwy gyffuriau anghyfreithlon penodol wedi gostwng 12.8 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf, o 5.561 yn 2020-21 i 4,849 yn 2021-22. Opioidau a oedd yn gyfrifol am y nifer fwyaf o'r achosion lle derbyniwyd unigolion i'r ysbyty yn sgil cyffuriau anghyfreithlon, ac yna canabinoidau.***

Yn 2021, cofrestrwyd 322 o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, cynnydd o 43.8 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn galendr flaenorol. O'r holl farwolaethau o wenwyno gan gyffuriau, dynodwyd bod 210 (65.2 y cant) yn farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, cynnydd o 40.9 y cant o'r 149 o farwolaethau a welwyd yn 2020. Wrth edrych ar grwpiau o sylweddau, marwolaethau sy'n gysylltiedig ag opioidau yw'r mwyaf cyffredin o bell ffordd o ran marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, a marwolaethau sy'n gysylltiedig â heroin/morffin yn enwedig.[5.]

** Yn y cyd-destun hwn, mae defnydd problemus o gyffuriau wedi'i ddiffinio gan Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) fel "defnyddio cyffuriau drwy eu chwistrellu, neu ddefnyddio opioidau, cocên a/neu amffetaminau (gan gynnwys sylweddau tebyg i amffetaminau) am gyfnod hir neu reolaidd".

***Mae'n bwysig nodi nad yw'n bosibl gwahaniaethu mewn data am dderbynia dau i'r ysbyty rhwng cynhyrchion canabinoid: resin canabis, mathau cryfach o ganabis perlysieuol, 'skunk'; neu ffurfiau newydd o weithyddion derbynyddion canabinoid synthetig, sydd weithiau'n cael eu galw yn 'Spice'

5. Cloddio Data Cymru: Proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2020-21; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Caerdydd; 2022; https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/cloddio-data-cymru-proffil-blynyddol-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2020-21/ (fel ar 2 Mai 2023)

## WEDINOS Samplau

Derbyniodd a dadansoddodd **WEDINOS** gyfanswm o 6,656 samplau gan 74 o wasanaethau a sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gan unigolion. Gellir gwahanu'r samplau hyn yn dri chategori eang:

- Y gymuned
- Economi'r nos
- Lleoliadau cyfiawnder troseddol

Daw'r samplau a gyflwynir gan leoliadau economi'r nos a lleoliadau cyfiawnder troseddol o finiau amnest, neu maen nhw'n rhai a ddarganfuwyd nad oes modd eu priodoli. Gan hynny, nid oes unrhyw wybodaeth am y bwriad wrth brynu, am yr effeithiau nac am ddemograffeg i gyd-fynd â nhw.

## Y Prif Ganfyddiadau... Beth?

O blith y 6,656 o samplau a ddadansoddwyd gan **WEDINOS**, cafodd 185 o sylweddau'u proffilio naill ar eu pennau'u hunain neu ar ffurf cyfuniad o sylweddau.

### bensodiasepinau

Y grŵp cemegol o sylweddau seicoweithredol a ganfuwyd amlaf am y bumed flwyddyn oedd bensodiasepinau. Canfuwyd 18 ohonyn nhw (canfuwyd 20 yn 2021/22). Fodd bynnag, cafnwyd chwech ohonyn nhw ar ddeg achlysur neu lai.

### bromazolam

**Bromazolam**, sylwedd sydd 99 y cant o'r amser yn cael ei broffilio fel amnewidyn yn y farchnad bensodiasepinau anghyfreithlon, oedd y bensodiasepin a ganfuwyd amlaf (n=678). Diazepam oedd yr ail sylwedd a ganfuwyd amlaf, a hynny 593 o weithiau, er ei fod wedi'i enwi ar 1,208 o achlysuron fel y sylwedd y bwriadwyd ei brynu.

Mae bromazolam yn gryfach na diazepam. Mae hynny'n creu risg bosibl i unigolion sy'n defnyddio bensodiasepinau gan fod maint dosau a'u cryfder yn amrywio'n sylweddol.

### cocên

Fel yn y tueddiadau a welwyd yn 2021/22 a chyn cyfyngiadau COVID-19, cocên oedd y sylwedd seicoweithredol a ganfuwyd amlaf gan **WEDINOS**.

Yn ôl adroddiad diweddaraf Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2021/22, nid oedd newid yn y defnydd o gocên ymhlith oedolion rhwng 16 a 59 oed y llynedd o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyfeirio at gynnydd yn nifer yr asesiadau sydd wedi'u cwblhau gan wasanaethau camddefnyddio cyffuriau lle mai cocên yw'r prif gyffur y bydd pobl yn dewis ei ddefnyddio.

Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, caffein oedd y cyfrwng llenwi/torri mwyaf poblogaidd a ganfuwyd, ond, yn ogystal â'i ganfod wedi'i gyfuno â sylweddau eraill, canfuwyd bod sawl sampl o bowdrau a thabledi yn cynnwys caffein yn unig, yn enwedig ymhlith samplau a gyflwynwyd fel MDMA.

**Tabl 1: Y sylweddau sy'n newid y meddwl/seicoweithredol a ganfuwyd amlaf yn samplau WEDINOS**


| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| 1 | Cocên | Cocên |
| 2 | MDMA | MDMA |
| 3 | Bromazolam | Diazepam |
| 4 | Diazepam | Ketamine |
| 5 | Cetamine | Caffeine |
| 6 | Caffeine | Ni chanfuwyd cyfansoddyn gweithredol |
| 7 | Tetrahydrocannabinol | Etizolam |
| 8 | Alprazolam | Tetrahydrocannabinol |
| 9 | Parasetamol | Cannabidiol |
| 10 | Nicotin | Flubromazolam |

Fel y crybwyllwyd eisoes, bydd **WEDINOS** yn cael samplau gan amrywiaeth eang o leoliadau cymunedol. Mae **WEDINOS** yn gweithio'n agos â'r chwe charchar yng Nghymru, gan roi adroddiadau ar wahân am ganfyddiadau sydd heb werth fel tystiolaeth. Yn adran nesaf yr adroddiad hwn, byddwn yn canolbwyntio ar samplau o leoliadau cymunedol.

# Lleoliadau yn y Gymuned . . .

Cyflwynwyd 4,979 o samplau o leoliadau cymunedol gan gynnwys y byd addysg, y sector iechyd (gan gynnwys Adrannau Achosion Brys), y maes iechyd meddwl, y maes tai a digartrefedd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac unigolion.

O blith y 4,979 o samplau, roedd gwybodaeth ddemograffig ar gael ar gyfer 97 y cant (n=4,812).





Pan oedd data demograffig ar gael, cyflwynwyd 79 y cant o'r samplau gan wrywod a 21 y cant gan fenywod. Dyma'r un rhaniad rhwng gwrywod a benywod ag yn y flwyddyn flaenorol.

Canolrif oedran pawb a ddarparodd samplau sy'n newid y meddwl / seicoweithredol (yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach) oedd 33 oed, yn amrywio o 12 i 80 oed, o'i gymharu â 33 oed ac 14 i 80 oed yn 2021-2022.

- Benywod – canolrif yr oedran oedd 34 oed (33 oed yn 2021-2022) (amrediad: 12-74 oed)
- Gwrywod – canolrif yr oedran oedd 33 oed (32 oed 2021-2022) (amrediad: 14-80 oed)

**Siart 1: Proffil Darparwyr Samplau Seicoweithredol**



# Samplau o'r Gymuned: Beth?

Ers lansio **WEDINOS** yn 2013, mae'r prosiect wedi dangos yn gyson fod sylweddau'n cael eu hamnewid ym marchnad gyffuriau anghyfreithlon y Deyrnas Unedig.

Yn y 4,684 o samplau a gyflwynwyd drwy ddarparwyr samplau yn y gymuned, cafodd 170 o sylweddau eu proffilio naill ai ar eu pennau'u hunain neu ar ffurf cyfuniad o sylweddau.

Mae Tabl 2 yn dangos y newidiadau yn y "deg sylwedd mwyaf cyffredin" wrth gyflwyno'r samplau (y bwriad wrth brynu) ac ar ôl eu dadansoddi.

Gellir categorïo samplau fel rhai anhysbys am nifer o resymau. Yn eu plith mae: pan fydd y bwriad wrth brynu yn rhestru sampl fel un anhysbys, neu sampl wedi'i darganfod; fel y rheini a gyflwynir o leoliadau gofal iechyd, fel adrannau achosion brys neu wardiau iechyd meddwl.

### Table 2: Most common substances pre (perceived) and post (actual) analysis

| | Y bwriad wrth brynu yn y gymuned | Ar ôl dadansoddi o'r gymuned |
|---|---|---|
| 1 | Diazepam | Bromazolam |
| 2 | MDMA | MDMA |
| 3 | Alprazolam | Diazepam |
| 4 | Cocên | Cocên |
| 5 | Anhysbys | Caffeine |
| 6 | Cynnyrch Canabis/THC/CBD | Cetamin |
| 7 | Cetamin | Alprazolam |
| 8 | Amffetamin | Ni chanfuwyd cyfansoddyn gweithred- |
| ol9 | Zopiclone | Tetrahydrocannabinol |
| 10 | 2C-B | Amffetamin |

Mae Tabl 2 yn dangos y newidiadau rhwng y sylweddau a nodwyd amlaf cyn eu dadansoddi; a'r sylweddau a ganfuwyd amlaf ar ôl eu dadansoddi.


Bromazolam oedd y sylwedd mwyaf cyffredin a ganfuwyd drwyddi draw, gyda bensodiasepin arall, etizolam, yn unfed ar ddeg ar y rhestr o'r sylweddau mwyaf cyffredin yn hynny o beth. Ar ôl dadansoddi, canfuwyd y sylweddau hyn 819 o weithiau i gyd. Serch hynny, dim ond 44 gwaith y cafodd y sylweddau hyn eu henwi wrth drafod y sylweddau y bwriadwyd eu prynu (8 bromazolam a 36 etizolam).

Gellid dadlau mai presenoldeb amlwg sylweddau "anhysbys" cyn eu dadansoddi fyddai'r elfen sy'n dylanwadu fwyaf ar y newid hwn. Serch hynny, hyd yn oed ar ôl cael gwared ar y samplau hyn, fe welwn dros y flwyddyn ddiwethaf nad oedd 39 y cant o'r samplau a gyflwynwyd i **WEDINOS** gan enwi'r sylwedd y bwriadwyd ei brynu yn cynnwys beth roedd pobl yn disgwyl iddo'i gynnwys, sy'n uwch na'r 35 y cant a welwyd yn 2021-22.

Roedd rhai o'r samplau'n cynnwys y sylwedd y bwriadwyd ei brynu a sylweddau eraill, er enghraifft, sampl a brynwyd fel MDMA, ond y canfuwyd ei bod yn cynnwys MDMA a 3-methylmethcathinone ar ôl ei dadansoddi. Gwelwyd bod samplau eraill yn cynnwys sylwedd neu sylweddau gwahanol. Er enghraifft, canfuwyd bod sampl a brynwyd fel diazepam yn cynnwys bromazolam.

Dangosir lefelau'r sylweddau ychwanegol a'r amnewidion yng ngraff 1.

## Graff 1: Cynnwys samplau - ar ôl dadansoddi




# O'r Gymuned: Sut?

## Ffurf y sampl

Bydd **WEDINOS** yn gofyn beth yw ffurf pob sampl a gyflwynir er mwyn monitro ac adrodd am ffurfiau amrywiol sylweddau ar y farchnad a gwahaniaethau posibl o ran sut byddan nhw'n cael eu defnyddio.

### iart 2: Ffurf Sylweddau Seicoweithredol





Fel yn y ddwy flynedd ddiwethaf, rydyn ni'n gweld cyfran uchel o dabledi'n cael eu cyflwyno yn gyffredinol. Adlewyrchir hyn gan nifer uchel y samplau a gyflwynir lle bydd pobl yn credu mai diazepam ac alprazolam ydyn nhw.

### Dull Defnyddio a Chyngor am Leihau Niwed

Gan dybio bod yr holl samplau o ddeunydd planhigion a hylifau fêpio yn cael eu hysmygu / fêpio, bydd y samplau sy'n weddill (tabledi, hylifau, tabiau, gronynnau ac ati) wedi cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd. Y ffurf fwyaf cyffredin oedd eu cymryd drwy'r geg (llyncu, 'bomio'), a adroddwyd mewn 78.6 y cant o'r samplau. Mae'n debygol bod cyffredinrwydd uchel y dull drwy'r geg yn gysylltiedig â nifer uchel y samplau a ddaeth i law ac a brynwyd fel bensodiasepinau, a diazepam a alprazolam yn enwedig. Mae'n gysylltiedig hefyd â chyffredinrwydd tabledi MDMA.

Ar ôl cymryd drwy'r geg, y dull uchaf nesaf yw ffroeni/sniffian ar 15.2 y cant, fel y gwelir yn Siart 3.

### Siart 3: Dull Defnyddio



Dywedodd 1.3 y cant o ddarparwyr samplau eu bod yn chwistrellu sylweddau drwy wythïen.

Canfuwyd bod y samplau a chwistrellwyd wedi'u prynu fel heroin, amffetamin, methamffetamin, meffedron a chetamin, a'u bod yn cynnwys y rheini.

Mae risgiau cynhenid o ddatblygu haint bacterol a feirysol yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau drwy eu chwistrellu, ac mae'r risgiau hyn yn fwy difrifol na risgiau/gwenwyndra posibl y sylwedd sy'n cael ei chwistrellu.

Waeth beth yw'r sylwedd, mae defnyddio cyffuriau drwy eu chwistrellu yn arwain at risg bosibl o haint (yn enwedig os bydd rhywun yn rhannu neu'n ailddefnyddio offer) ac o orddos. Dylai unigolion sy'n chwistrellu cyffuriau ar hyn o bryd, neu sydd wedi chwistrellu yn y gorffennol, gael eu profi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed.


## Chwistrellu

Peidiwch â rhannu unrhyw offer chwistrellu; mae hyn yn cynnwys dŵr, llwyau a a hidlyddion yn ogystal â nodwyddau a chwistrelli. Mae'n arfer orau defnyddio hidlydd ar gyfer tynnu i fyny.
Gofalwch fod gennych chi ddigon o offer newydd ar gyfer pob chwistrelliad.
Defnyddiwch safleoedd gwahanol ar y corff.
Gofalwch fod unrhyw glwyfau'n cael eu trin cyn gynted â phosibl.
Os bydd man rydych chi wedi'i chwistrellu troi'n boeth neu'n goch – ewch i gael cyngor meddygol.
Gofalwch fod gennych chi'r offer cywir ar gyfer sut rydych chi'n bwriadu'i ddefnyddio.
Mae chwistrellu yn dwysáu popeth am y profiad cyffuriau.
Mae'r rhan fwyaf o sylweddau seicoweithredol newydd yn hydawdd mewn dŵr a does dim angen ychwanegu asid (gan amlaf asid citrig neu asid asgorbig (Fit C)).

## Powdrau a Deunyddiau Crisialog

The most common method of consumption of powders, granules and crystalline materials was snorting / sniffing, with 53 per cent reporting this method (as shown in Chart 4). This figure is comparable to 2021-22 when incuding it with mixed methods of consumption, including oral consumption.

### Chart 4 : Method of Consumption: Powders



Mae risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â ffroeni/sniffian sylweddau a all fod yn gostig neu'n wenwynig, a'r risgiau hynny'n ymwneud â niwed i lwybrau aer y trwyn yn ogystal â'r posibilrwydd o drosglwyddo heintiau a feirysau a gludir yn y gwaed wrth rannu teclynnau ffroeni pan fydd niwed i lwybrau aer y trwyn a gwaed yn bresennol.

## Insufflation (Sniffing/Snorting)

WEDI NOS

- Defnyddiwch declynnau glân bob amser (teclyn ffroeni).
- Defnyddiwch eich teclyn eich hun.
- Peidiwch â rhannu teclynnau; gallai fod dafnau gwaed ar eich offer.
- Dylid ffroeni'n uchel i fyny'r ffroen er mwyn osgoi'r feinwe feddal fwyaf.
- Glanhewch lwybrau aer y trwyn ar ôl ffroeni, gan ddefnyddio hances laith neu ffon wlân cotwm.
- Dylid defnyddio'r naill ffroen a'r llall am yn ail er mwyn lleihau'r niwed i un ochr.
- Os bydd eich trwyn yn gwaedu - rhowch hoe iddo.

# Bensodiasepinau




Am y bumed flwyddyn yn olynol, bensodiasepinau oedd y dosbarth mwyaf cyffredin o sylweddau a ganfuwyd ymhlith yr holl samplau a gyflwynwyd i **WEDINOS**.

Diazepam oedd y sylwedd mwyaf cyffredin o ran y bwriad wrth brynu ymhlith y samplau a gyflwynwyd gan y gymuned, a bensodiasepin arall, alprazolam, oedd y trydydd.

Ar ôl dadansoddi, y bensodiasepin, bromazolam, oedd y sylwedd mwyaf cyffredin a broffiliwyd mewn samplau o'r gymuned. Roedd diazepam yn drydydd ac alprazolam yn seithfed.

## Beth yw bensodiasepinau?

Dosbarth o sylweddau llonyddol yw bensodiasepinau. Maen nhw'n gweithio drwy gryfhau effeithiau cemegyn sydd i'w gael yn naturiol yn yr ymennydd, sef asid aminobwtyrig gama (GABA).

Mae GABA yn lleihau'r gweithgarwch yn y darn o'r ymennydd sy'n gyfrifol am y canlynol:

- rhesymu
- y cof
- emosiynau
- swyddogaethau hanfodol, fel anadlu

O ganlyniad, mae bensodiasepinau yn gallu gwneud i bobl ymlacio a theimlo'n gysglyd (effeithiau llonyddol), maen nhw'n gallu lleihau gorbryder, ac maen nhw'n ymlacio cyhyrau.

## Cyffredinedd (marchnata cyfreithlon ac anghyfreithlon)

Mae bensodiasepinau, o'u defnyddio fel meddyginiaethau, yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau fferyllol trwyddedig ac maen nhw'n cael eu hawdurdodi o dan ddeddfwriaeth genedlaethol. Yn y Deyrnas Unedig, mae bensodiasepinau yn cael eu rheoli gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016. Pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio'n feddyginiaethol, maen nhw'n feddyginiaethau sy'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn yn unig.

Pan fyddan nhw'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn, maen nhw'n cael eu hargymell ar gyfer eu defnyddio yn y tymor byr, gyda'r dos isaf posibl. Mae hyn er mwyn lleihau'r risgiau o oddefedd, dibyniaeth a symptomau diddyfnu.

Mae gwaith dadansoddi Public Health England yn dangos bod 1.4 miliwn o oedolion yn Lloegr wedi cael un neu fwy o bresgripsiynau am fensodiasepinau yn 2017-2018. Defnyddiwyd y presgripsiynau hyn yn bennaf er mwyn trin gorbryder.[6.] Diazepam yw'r bensodiasepin mwyaf cyffredin sy'n cael ei bresgripsiynu.

Yn ôl yr elusen cyffuriau Release, mae meddygon ym Mhrydain yn dal i roi bron i 18 miliwn o bresgripsiynau am diazepam bob blwyddyn.[7.]

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn trafod y defnydd o dawelyddion, sef grŵp o sylweddau sy'n cynnwys barbitwradau a bensodiasepinau. Amcangyfrifir bod 0.4 y cant o oedolion rhwng 16 a 59 oed yng Nghymru a Lloegr wedi defnyddio tawelyddion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â 0.7 y cant o unigolion rhwng 16 a 24 oed.[8.]

6. Prescribed medicines review: summary, Public Health England, diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020; https://www.gov.uk/government/publications/prescribed-medicines-re view-report/prescribed-medicines-review-summary {fel ar 4 Mai 2023}
7. https://www.release.org.uk/drugs/diazepam-valium/history {fel ar 4 Mai 2023}
8. Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2021/22; Drug misuse in England and Wales: year ending June 2022. https://www.ons.gov.uk/people populationandcommunity/crimeandjustice/ articles/drugmisusein englandandwales/yearendingjune2022 [fel ar 4 Mai 2023]

## Gwenwyndra bensodiasepinau

Mae bensodiasepinau yn achosi gwenwyndra'n bennaf i'r brif system nerfol. Gall yr effeithiau hyn o bosibl fod yn fwy difrifol pan fydd cyffuriau sy'n iselyddion fel alcohol ac opioidau yn cael eu defnyddio ar yr un pryd, neu yn ystod cyfnod pan fydd bensodiasepinau yn dal yn bresennol ac yn weithgar yn y corff.

Gall hyd effeithiau bensodiasepinau amrywio'n fawr, yn dibynnu a yw'r bensodiasepin dan sylw yn un sy'n gweithredu am gyfnod byr, canolig neu hir. Er enghraifft, mae bromazolam yn weithredol am rhwng 5 ac 8 awr.[9.] Fodd bynnag, gall hanner oes* y sylweddau hyn fod yn llawer hwy. Er enghraifft, gall hanner oes diazepam bara rhwng 20 a 100 awr.[10.]

## Marwolaethau'n gysylltiedig â bensodiasepinau

Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnydd o 13 y cant yn nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau yng Nghymru a Lloegr yn 2021, gan godi o 476 i 538 o farwolaethau. Nododd hefyd gynnydd sylweddol mewn marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â sylweddau seicoweithredol, gan ddweud bod modd priodoli'r cynnydd hwn i nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau newydd, yn bennaf flubromazolam ac etizolam. Cynyddodd y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau o 62 yn 2020 i 171 yn 2021.[11.]

Mae bensodiasepinau yn cael eu crybwyll yn gyson mewn adroddiadau am farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn gwledydd Ewropeaidd. Serch hynny, gan amlaf, byddan nhw'n cael eu crybwyll wedi'u cyfuno â sylweddau eraill.[12.]

Yn Unol Daleithiau America, bu cynnydd o 0.46 o farwolaethau yn sgil cyffuriau'n gysylltiedig â bensodiasepinau ym mhob 100,000 o unigolion i 2.96 ym mhob 100,000 o unigolion yn 2019. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd bensodiasepinau wedi'u crybwyll mewn 118,208 achos o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau. Nid oedd naw y cant (n=10,677) yn gysylltiedig ag opioidau, cocên, seicosymbylyddion, bwrbitwradau, neu alcohol. Ymhlith y marwolaethau hyn, nid oedd 4709 yn cynnwys unrhyw sylwedd penodedig arall.[13.]

Wrth ddisgrifio marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yn yr Alban, canfu McAuley et al., y cynyddodd marwolaethau'n gysylltiedig â'r bensodiasepin, etizolam, 19 gwaith yn y bum mlynedd rhwng 2015 (43 o blith 706 o farwolaethau) a 2020 (806 o blith 1,339 o farwolaethau). Serch hynny, o blith yr 806 achos o farwolaeth lle cafodd etizolam ei grybwyll, dim ond un y cant o'r amser (n=8) y cafodd ei grybwyll ar ei ben ei hun.[14.]

Serch hynny, nid yw'r risg uwch o effeithiau niweidiol yn gysylltiedig â defnyddio amryw o gyffuriau ar yr un pryd yn unig. Fel mae tystiolaeth **WEDINOS** wedi'i ddangos dros y blynyddoedd diwethaf, ceir cyfradd uchel o amnewid yn y farchnad bensodiasepinau anghyfreithlon. Mae Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) wedi sôn am bryderon ynghylch y trawsgroesi cynyddol rhwng y farchnad gyffuriau anghyfreithlon a'r farchnad sylweddau seicoweithredol newydd. Yn yr adran hon, byddwn ni'n disgrifio'r trawsgroesi hwn mewn perthynas â samplau sydd wedi'u cyflwyno i **WEDINOS** fel diazepam (faliwm) ond sydd, ar ôl eu dadansoddi, i'w gweld yn cynnwys sylweddau eraill, ac yn bennaf bensodiasepinau newydd / bensodiasepinau labordy. Yn 2021, dywedodd EMCDDA ei fod yn monitro 30 o'r bensodiasepinau newydd hyn.[15.]

9. Sefydliad Iechyd y Byd, Critical review report: Bromazolam, Expert Committee on Drug Dependence, Forty-fifth Meeting, Geneva, 10–14 Hydref 2022; https://cdn.who.int/media/docs/default-source/controlled-substances/45th-ecdd/bromazolam_draft.pdf?sfvrsn=f1bc761e_1#:~:text=Informational%20websites%20for%20users%20list%20a%20dosage%20range,and%20the%20duration%20of%20action%20is%20 5%E2%80%938%20h. (fel ar 4 Mai 2023)

* Hanner oes yw'r amser mae'n ei gymryd i grynodiad sylwedd yn y gwaed ostwng i hanner ei werth uchaf ar ôl un dos.

10. Tabl cyfwerthedd Bensodiasepin; https://www.benzo.org.uk/bzequiv.htm (fel ar 4 Mai 2023)

11. Drug misuse in England and Wales: year ending March 2021; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 3 Awst 2022; https://www.ons.gov.uk/people populationandcommunity/births deathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrugpoisoningin englandandwales/2021registrations (fel ar 4 Mai 2023)

12. Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2022), European Drug Report 2022: Trends and Developments, Swyddfa Gyhoeddi adau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg. https://www.emcdda.europa.eu/publications/edr/trends-developments/2022_en (fel ar 4 Mai 2023)

13. Kleinman, R.A., Weiss, R.D. Benzodiazepine-Involved Overdose Deaths in the USA: 2000–2019. J GEN INTERN MED 37, 2103–2109 (2022). https://doi.org/10.1007/s11606-021-07035-6 (fel ar 4 Mai 2023)

14. A McAuley, C Matheson, JR Robertson, From the clinic to the street: the changing role of benzodiazepines in the Scottish overdose epidemic, International Journal of Drug Policy, Cyfrol 100, 2022, 103512, ISSN 0955-3959, https://doi.org/10.1016/j.drugpo.2021.103512. (fel ar 4 Mai 2023)

15. Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2021), New benzodiazepines in Europe – a review, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg. https://www.emcdda.europa.eu/publications/rapid-communications/ new-benzodiazepines-europe-review_en (fel ar 4 Mai 2023)

Gall y sylweddau hyn yn aml fod yn gryfach na'r rhai maen nhw'n eu disodli, ac efallai y bydd er effeithiau'n cyrraedd ar adeg wahanol a'u hyd yn wahanol. Maen nhw felly'n arwain at risg uwch o effeithiau niweidiol.

## Bensodiasepinau... Safbwynt Cymreig

Yn 2021-22, roedd 507 o dderbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru gysylltiedig â bensodiasepinau, a'r rheini'n ymwneud â 459 o unigolion. Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran oedd 27.1 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth. O'i chymharu â'r llynedd (2020-2021), bu gostyngiad o 37.9 y cant yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â bensodiasepinau.


Yn 2021, roedd 61 o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â bensodiasepinau, sy'n gynnydd o'r ffigur o 35 yn 2020.

## Amnewidynnau

Yng nghyfnod adrodd 2022-23, cyflwynwyd 1,208 o samplau i **WEDINOS** 1,208 gyda'r gred mai diazepam oedden nhw. O fewn y samplau hyn, canfuwyd 38 o sylweddau, naill ai ar eu pennau'u hunain neu ar ffurf cyfuniad o sylweddau. Cafodd 28 o samplau eu proffilio fel rhai nad oedd yn cynnwys unrhyw gyfansoddion gweithredol.

Er mai diazepam (ar ei ben ei hun) oedd y cyffur y bwriadwyd ei brynu, yn dilyn gwaith proffilio a dadansoddi, canfuwyd mai dyna oedd cynnwys y sampl mewn 45 y cant o'r samplau a gyflwynwyd (n=539), sy'n golygu bod y gyfradd amnewid yn 55 y cant. Dyma fymryn o ostyngiad yn lefel yr amnewid o'i chymharu â 2021-22 (57 y cant). Drwy gydol y flwyddyn, roedd y gyfradd amnewid ymhlith samplau a gyflwynwyd fel diazepam rhwng 47 y cant (Mai 2022) a 64 y cant (Medi a Hydref 2022).


### Graff 2: Canran yr amnewid ymhlith samplau a gyflwynwyd fel diazepam




| | Ebr 22 | Mai 22 | Meh 22 | Gorff 22 | Awst 22 | Med 22 | Hyd 22 | Tach 22 | Rhag 22 | Ion 23 | Chwe 23 | Maw 23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfres 1 | 59% | 47% | 59% | 53% | 52% | 64% | 64% | 62% | 53% | 50% | 50% | 53% |

Y sylwedd a ganfuwyd amlaf oedd y triasolobensodiasepin, bromazolam. Canfuwyd bromazolam mewn 34 y cant (n=411) o'r samplau a gyflwynwyd fel diazepam. O'r 411 o'r samplau hynny, roedd 91 y cant (n=372) yn cynnwys etizolam ar ei ben ei hun a 9 y cant yn cynnwys etizolam a phenacetin.

## Siart 5: Samplau Diazepam – Cynnwys ar ôl dadansodd




Triasolobensodiasepin yw bromazolam, sydd â chysylltiad strwythurol ag alprazolam. Fe'i datblygwyd yn wreiddiol fel meddyginiaeth ymgeisiol, ond ni chafodd erioed ei gymeradwyo i'w ddefnyddio. Ar hyn o bryd, prin yw'r llenyddiaeth wyddonol ynghylch bromazolam.

Dos "cyffredin" drwy'r geg o bromazolam, yn ôl disgrifiad pobl sy'n defnyddio'r sylwedd, yw rhwng 1 a 3mg.[16.] Mae dechrau'r effeithiau i'w teimlo ar ôl rhwng 15 a 45 munud, ac maen nhw'n weithredol am rhwng 5 ac 8 awr.

Ymhlith effeithiau defnyddio bromazolam, yn ôl pobl sydd wedi'i gymryd, mae: effeithiau hypnotig, effeithiau llonyddol, ymlacio'r cyhyrau, lleddfu poen, ewfforia, mwy o hyder, empathi ac amnesia.[17.]

Yn y Deyrnas Unedig, mae bromazolam yn cael ei reoli o dan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016.

Nid oes data ar gael ynghylch dibyniaeth ar bromazolam a'r potensial i'w gamddefnyddio. Serch hynny, gellir tybio bod y perygl o'i gamddefnyddio a'r potensial i greu dibyniaeth yn debyg i'r sefyllfa yn achos bensodiasepinau eraill sy'n debyg yn gemegol, fel alprazolam.

**W032012**

Date Received: 23 Mar 2023
Postcode: KY39 -
Purchase Intent: Diazepam
Package Label: Not Stated
Sample Colour: Blue
Sample Form: Tablet
Consumption Method: Oral
Self-Reported Effects: Relaxed, Memory Loss, Loss of consciousness, Depression, Suicidal Ideation
Sample Upon Analysis (Major): Bromazolam
Sample Upon Analysis (Minor):



Click to Enlarge

Mae cyflwyno samplau'n uniongyrchol i **WEDINOS** yn caniatáu i dystiolaeth gael ei chasglu yn seiliedig ar ddata tueddiadau'r farchnad gyffuriau leol a chenedlaethol, gan alluogi gwasanaethau cyffuriau i ddarparu gwybodaeth ymarferol am amnewidion a niwed perthnasol cyffuriau. Drwy gyfuno hyn â ffynonellau data eraill, fel data am dderbyniadau i'r ysbyty, tocsicoleg a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gall gwasanaethau ddarparu gwybodaeth wedi'i thargedu am sylweddau a gwrtharwyddion penodol. Yn yr achos hwn, mae hyn wedi golygu mynd i'r afael â'r defnydd o amryw o gyffuriau ar yr un pryd, gan gynnwys "diazepam" a brynir ar y stryd.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ddogfen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn perthynas â bensodiasepinau ac opioidau, er mwyn eu hatgoffa am y risg o dananadlu a all fod yn angheuol. Tynnodd y ddogfen sylw at y risg gynyddol o dawelyddu, tananadlu, coma a marwolaeth pan gaiff y sylweddau eu presgripsiynu gyda'i gilydd.[18.]

Caiff y neges hon ei rhannu gan wasanaethau cyffuriau ag unigolion sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys bensodiasepinau (fel diazepam), opioidau (heroin/morffin/tramadol) ac alcohol.

16. Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2021), New benzodiazepines in Europe – a review, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg.
17. Sefydliad Iechyd y Byd, Critical review report: Bromazolam, Expert Committee on Drug Dependence, Forty-fifth Meeting, Geneva, 10–14 Hydref 2022; https://cdn.who.int/media/docs/default-source/controlled-substances/45th-ecdd/bromazolam_draft.pdf?sfvrsn=f1bc761e_1#:~: text=Informational%20websites%20for%20users%20list%20a%20 dosage%20range,and%20the%20duration%20of%20action%20is%20 5%E2%80%938%20h. (fel ar 4 Mai 2023)
18. Benzodiazepines and opioids: reminder of risk of potentially fatal respiratory depression; Medicines and Healthcare products Regulatory Agency; 18 Mawrth 2020; https://www.gov.uk/drug-safety-update/benzodiazepines-and-opioids-reminder-of-risk-of-potentially-fatal-respiratory-depression {fel ar 25 Mai 2022}

# Nitasinau

## Beth yw nitasinau?

yn y 1950au fel poenleddfwyr. Dangoswyd bod gan nifer ohonyn nhw effeithiau opioid cryf, ond ni chafodd dim ohonyn nhw'u marchnata yn unman fel meddyginiaethau i bobl neu at ddefnydd milfeddygol. Nid oes gan y grŵp hwn o opioidau gysylltiad strwythurol â grwpiau eraill o gyffuriau opioid, gan gynnwys morffin a fentanyl.

Yn gyffredinol, maen nhw'n hynod o weithredol, gyda chryfder ac effeithlonrwydd sy'n sawl gwaith mwy na fentanyl. Serch hynny, prin iawn yw'r wybodaeth am eu heffeithiau ar bobl.

Mae astudiaethau ymhlith anifeiliaid wedi dangos amrywiaeth eang yng nghryfder y grŵp hwn o sylweddau, a gall hyn amrywio hefyd yn dibynnu ar sut byddan nhw'n cael eu rhoi. Wrth gael eu rhoi i lygod yn isgroenol, roedd y cryfder yn amrywio o 1 (sy'n hafal i forffin) yn achos flunitazene i 1000 yn achos etonitazene.[19.]

The rank order of potency of a series of nitazenes was reported to be etonitazene >= isotonitazene > protonitazene >= metonitazene > butonitazene >= etodesnitazene >> 5-aminoisotonitazene = flunitazene > metodesnitazene.[19.]

Roedd data rhagarweiniol heb eu cyhoeddi yn awgrymu bod etonitazepyne ymhlith yr opioidau nitasin cryfaf, a'i fod yn gryfach na fentanyl gyda gweithrediad MOR tebyg i etonitazene.[19.]

## Statws cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig

Yn y Deyrnas Unedig, mae etonitazene a clonitazene wedi'u rheoli o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 fel cyffuriau Dosbarth A. Nid yw'r holl opioidau 2-benzyl benzimidazole eraill wedi'u rheoli ar hyn o bryd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, er eu bod wedi'u rheoli o dan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016.

## Nitasinau a gorddosau angheuol yn gysylltiedig â chyffuriau (y Deyrnas Unedig)

Mae opioidau nitasin hefyd wedi'u canfod yn y Deyrnas Unedig, lle bu o leiaf 24 o farwolaethau yn gysylltiedig ag isotonitazene a 3 yn gysylltiedig ag etonitazepyne yn ystod 2021. Yn y mwyafrif o'r achosion, cafodd nitasinau eu crybwyll ochr yn ochr â sylweddau eraill.[20.]

## Naloxone, wrth ymateb i orddosau nitasin

Ceir diffyg tystiolaeth ynghylch defnyddio naloxone yn benodol ar gyfer trin gorddosau nitasin. Serch hynny, ceir tystiolaeth ei fod yn gwrthdroi tananadlu a choma sy'n bygwth bywyd, a hynny wedi'i achosi gan fetonitasin isgroenol.[21.]

19. Adroddiad ACMD – A review of the evidence on the use and harms of 2-benzyl benzimidazole ('nitazene') and piperidine benzimidazolone ('brorphine-like') opioids; Gorffennaf 2022; https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/ uploads/attachment_data/file/1091152/ACMD_advice_on_2-benzyl_ benzimidazole_and_piperidine_benzimidazolone_opioids.pdf [fel ar 5 Mai 2023]
20. Vandeputte MM, Van Uytfanghe K, Layle NK, St Germaine DM, Iula DM, Stove CP. Synthesis, Chemical Characterization, and μ-Opioid Receptor Activity Assessment of the Emerging Group of "Nitazene" 2-Benzylbenzimidazole Synthetic Opioids. ACS Chem Neurosci. 2021 Apr 7;12(7):1241-1251. doi: 10.1021/acschemneuro.1c00064. Epub 2021 Maw 24. PMID: 33759494.
21. Bromig, G. 'Über neue starkwirkende Analgetika und ihre klinische Erprobung', Klinische Wochenschrift, 36(20), tudalennau 960–963. 1958 doi: 10.1007/BF01486702

Yn yr erthygl “What are Nitrazines?”, mae’r Athro Ryan Marino (Meddygaeth Frys a Seiciatreg yn Case Western School of Medicine, Cleveland) yn dweud y dylai naloxone fod yn effeithiol wrth drin pobl sy’n dioddef o orddos nitrasin, er y gallai fod angen dosau uwch. Ond mae angen mwy o ymchwil i effeithiolrwydd hyn. Yn yr un erthygl, ychwanega Dr Krotulski nad oes tystiolaeth i awgrymu bod yr opioidau synthetig newydd yn ymwrthol i naloxone. Mae’r cwestiwn yn ymwneud â’r dos angenrheidiol a rhoi dosau ychwanegol.[22.]

Mae TOXBASE a Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol y Deyrnas Unedig am Wenwynau yn awgrymu y dylid defnyddio naloxone os yw claf wedi dod i gyswllt ag unrhyw gyffur opioid ac yn datblygu tananadlu, rhwystr ar y llwybr anadlu neu chwydu gyda nam ar ei ymwybyddiaeth.

22. Castaneda, R. What are Nitrazines?
https://health.usnews.com/drugs/articles/nitazenes

# WEDINOS a Nitasinau


Cafodd **WEDINOS** y sampl gyntaf wedi'i phroffilio gan y rhaglen a oedd yn cynnwys nitasin ar 14 Ebrill 2021. Cafodd y sampl hon (cyfeirnod **WEDINOS**: W018254), ei chyflwyno fel powdr gwyn oedd wedi'i ddarganfod, a hynny o god post WF1, Wakefield. Roedd y sampl hon yn cynnwys metonitazene.

Ers hynny mae'r rhaglen wedi cael ac wedi dadansoddi 45 o samplau eraill a gafodd eu proffilio fel rhai a oedd yn cynnwys nitasin. Hyd yma, mae **WEDINOS** wedi canfod pum nitasin mewn samplau a gyflwynwyd i'r rhaglen: butinitazene, etonitazepyne (N-pyrrolidino etonitazene), isotonitazene, metonitazene a protonitazene.

Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, cyflwynwyd 36 o samplau a gafodd eu proffilio fel rhai a oedd yn cynnwys nitasin ar ôl eu dadansoddi. Ni chafodd dim o'r samplau hyn yn eu cyflwyno gan nodi bwriad i brynu nitasin. Cafodd 64 y cant (n=23) o'r samplau hyn eu cyflwyno yn y gred mai oxycodone oedden nhw.

Cafodd 22 y cant (n=8) eu cyflwyno yn y gred mai bensodiasepinau oedden nhw, sef alprazolam (n=7) a diazepam (n=1). Cyflwynwyd y samplau hyn ar ffurf powdr melyn.

Cafodd samplau'n cynnwys nitasin eu cyflwyno o bob rhan o dir mawr y Deyrnas Unedig.



# Xylazine

## Beth yw xylazine?

Meddyginiaeth yw xylazine sy'n weithydd adrenergig alpha-2 rhannol, a hwnnw'n boenleddfwr ac yn dawelydd nad yw'n opioid. Fe'i defnyddir fel llonyddwr milfeddygol ar gyfer mamaliaid nad ydyn nhw'n bobl.

Fe'i darganfuwyd yn wreiddiol yn 1962 fel meddyginiaeth wrthorbwysol, ond gwelwyd mewn treialon clinigol cynnar fod xylazine yn cael effeithiau eithafol sy'n gwasgu ar y brif system nerfol.[23.] O ganlyniad i'r sgil-effeithiau peryglus hyn, nid yw xylazine wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ymhlith pobl.

Mae xylazine wedi'i ddynodi'n sylwedd sy'n cael ei gamddefnyddio, ac yn bennaf fel difwynwr yn y farchnad heroin a chocên yn Puerto Rico ac Unol Daleithiau America.[24.]

Mae'r nodweddion mwyaf cyffredin yn cynnwys syrthni, coma, bradycardia ac isbwysedd. Gall nodweddion eraill gynnwys gorbwysedd, hypothermia, tananadlu, apnoea, cynnwrf, rhithweledigaethau, cur pen, ceg sych, hyperglycaemia, arrhythmia cardiaidd (gan gynnwys rhwystr atrio-fentrigaidd), oedema ysgyfeiniol a chonfylsiynau.[25.]

Yn eu astudiaeth, canfu Rayes et al (2012) fod wlseriaid ar y croen yn bryder iechyd o bwys i unigolion sydd wedi defnyddio xylazine, a thrafodwyd y gallai hyn fod yn sgil ymateb ocsigeniad y croen ac ocsigeniad is. Mae cysylltiad rhwng ocsigeniad is yn y croen ac anallu clwyfau i wella cystal â'r arfer, a chyfradd uwch o heintiau ar glwyfau.[24.]

## Statws cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig

Yn y Deyrnas Unedig, nid yw xylazine wedi'i reoli o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

## Xylazine a gorddosau angheuol sy'n gysylltiedig â chyffuriau

Ar 12 Ebrill 2023, dynododd y Tŷ Gwyn fod fentanyl wedi'i gyfuno ag xylazine yn fygythiad newydd i'r Unol Daleithau.[26.]

Yn ôl data'r Centers for Disease Control and Prevention, cynyddodd yr amcangyfrif o nifer y marwolaethau drwy wenwyn cyffuriau yn yr Unol Daleithiau a oedd yn gysylltiedig ag xylazine o 260 yn 2018 i 3480 yn 2021, sy'n gynnydd o 1238 y cant.[27.]

## Naloxone, wrth ymateb i orddos o xylazine

O dybio bod rhywun wedi cael gorddos o xylazine, mae arbenigwyr yn argymell rhoi'r feddyginiaeth naloxone, sy'n gwrthdroi gorddosau opioid, gan fod tystiolaeth i ddangos bod xylazine wedi'i gyfuno'n aml ag opioidau (data'r Unol Daleithiau uchod). Serch hynny, gan nad yw xylazine yn opioid, nid yw naloxone yn mynd i'r afael ag effaith xylazine ar anadlu.[28.]

O ganlyniad, efallai y bydd angen rhagor o ofal wrth drin gorddos o xylazine. Gallai hyn gynnwys cynnal llwybr anadlu claf, rhoi ocsigen atodol, perfformio anadlu achubol, a thrin isbwysedd yn ôl y galw.[27.]

Mae TOXBASE a Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol y Deyrnas Unedig am Wenwynau yn amlygu xylazine fel Sylwedd Hynod Wenwynig, a dylid cyfeirio pob claf at Adran Achosion Brys ar ôl dod i gyswllt ag unrhyw faint ohono mewn unrhyw ffordd.

23. Greene, S.A. a Thurmon, J.C. (1988), Xylazine – a review of its pharmacology and use in veterinary medicine. Journal of Veterinary Pharmacology and Therapeutics, 11: 295-313. https://doi.org/10.1111/j.1365-2885.1988.tb00189.x [fel ar 8 Mai 2023]
24. Reyes JC, Negrón JL, Colón HM, Padilla AM, Millán MY, Matos TD, Robles RR. The emerging of xylazine as a new drug of abuse and its health consequences among drug users in Puerto Rico. J Urban Health. 2012 Jun;89(3):519-26. doi: 10.1007/s11524-011-9662-6. PMID: 22391983; PMCID: PMC3368046.
25. Toxbase.org, poisons-index-a-z, xylazine [fel ar 8 Mai 2023]
26. Biden- Harris Administration Designates Fentanyl Combined with Xylazine as an Emerging Threat to the United States, Y Tŷ Gwyn, 12 Ebrill 2023; https://www.whitehouse.gov/ondcp/briefing-room/2023/04/12/biden-harris-administration-designates-fentanyl-combined-with-xylazine-as-an-emerging-threat-to-the-united-states/ [fel ar 8 Mai 2023]
27. Gupta, R. Holtgrave, D.R. Ashburn, M.A., Xylazine — Medical and Public Health Imperatives, Ebrill 26, 2023 DOI: 10.1056/NEJMp2303120; https://www.nejm.org/doi/full/10.1056/ NEJMp2303120#:~:text=According%20to%20data%20from%20the%20 Centers%20for%20Disease,reported%20in%20Pennsylvania%2C%20 Maryland%2C%20New%20York%2C%20and%20Connecticut. [fel ar 8 Mai 2023]
28. Xylazine, National Institute of Health, National Institute on Drug Abuse; https://nida.nih.gov/research-topics/xylazine#:~:text=In%20the%20 event%20of%20a%20suspected%20xylazine%20 overdose%2C,should%20always%20be%20alerted%20to%20a%20 suspected%20overdose. [fel ar 8 Mai 2023]

# WEDINOS ac Xylazine

Cafodd **WEDINOS** y sampl gyntaf wedi'i phroffilio gan y rhaglen a oedd yn cynnwys xylazine ar 8 Ionawr 2020. Cafodd y sampl hon (cyfeirnod **WEDINOS**: W012473), ei chyflwyno fel cetamin o god post KA4, Galston, Dwyrain Swydd Aeron, yr Alban.

Ers hynny mae'r rhaglen wedi cael ac wedi dadansoddi 10 o samplau eraill a gafodd eu proffilio fel rhai a oedd yn cynnwys xylazine. Daeth y mwyafrif llethol i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, cyflwynwyd naw o samplau a gafodd eu proffilio fel rhai a oedd yn cynnwys xylazine ar ôl eu dadansoddi. Ni chafodd dim o'r samplau hyn yn eu cyflwyno gan nodi bwriad i brynu xylazine.

Cafodd chwech o'r samplau hyn eu cyflwyno yn y gred mai bensodiasepinau oedden nhw. Roedd pump ar ffurf tabledi ac un yn bowdr. Cafodd tri o'r samplau hyn eu cyflwyno yn y gred mai diazepam oedden nhw. Cyflwynwyd un sampl yr un gan gredu mai alprazolam, bromazolam a temazepam oedden nhw. Cafodd dau eu cyflwyno fel hylif fêpio THC ac un fel cyfuniad o heroin a fentanyl.

Mae'r effeithiau yn ôl y bobl sydd wedi'u cymryd yn gyfyngedig ac yn amrywio yn dibynnu ar ddarparwr y sampl. Pan oedd gwybodaeth ar gael, soniwyd am yr effeithiau canlynol:
Darparwr sampl un: Wedi ymlacio, pwl o banig, insomnia, iselder
Darparwr sampl dau: Wedi ymlacio, pwl o banig, insomnia, iselder
Darparwr sampl tri: Dim effaith
Darparwr sampl pedwar: Ewfforia, colli cof, mwy o egni mwy o hyder, synhwyrau mwy effro, mwy o libido, wedi ymlacio
Darparwr sampl pump: Ewfforia, mwy o hyder, empathi, wedi ymlacio

### Cafodd samplau'n cynnwys sylweddau xylazine eu cyflwyno o Gymru, Lloegr a'r Alban.



# Lleoliadau Economi'r Nos a Gwyliau Cerddoriaeth

Drwy weithio mewn partneriaeth â heddluoedd Cymru, bydd **WEDINOS** yn cael samplau gan rai o leoliadau economi'r nos a gwyliau cerddoriaeth yng Nghymru, a'r rheini'n cael eu casglu mewn biniau amnest.

Nid oes unrhyw werth fforensig na thystiolaethol i'r samplau hyn, a gan eu bod yn cael eu darparu'n ddienw, nid oes unrhyw ddata demograffig, gwybodaeth am y bwriad wrth brynu, y dos na'r effeithiau i gyd-fynd â nhw. Fodd bynnag, maen nhw'n rhoi gwybodaeth bwysig am y cyffuriau sydd ar gael yn y farchnad benodol hon.

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, dadansoddodd **WEDINOS** 1,112 o samplau gan 22 o leoliadau economi'r nos a 2 ŵyl ledled ardaloedd Byrddau Iechyd Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe.

O fewn y samplau hyn, y prif sylwedd a ganfuwyd amlaf (ac eithrio cyfryngau llenwi a thorri a metabolion), oedd cocên (n=682), ac yna cetamin (n=206) ac MDMA (n=113). Dyma'r un tri sylwedd a ganfuwyd amlaf ymhlith samplau a gyflwynwyd drwy economi'r nos yn 2021-2022.

O fewn samplau o gocên, y prif gyfryngau llenwi a thorri a ganfuwyd yn dilyn gwaith proffilio oedd levamisole (n=96/682) a benzocaine (n=60/682).

Er na allwn drafod amnewidion mewn perthynas â samplau a gyflwynir gan leoliadau economi'r nos a gwyliau cerddoriaeth am nad oes gennyn ni unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r bwriad wrth brynu, gallwn wneud sylwadau ynghylch y sylweddau a ganfuwyd amlaf yn seiliedig ar ddata am y sylweddau a ddaeth i law o'r gymuned.

## Cocên

Symbylydd pwerus sy'n effeithio ar y brif system nerfol yw cocên. Daw o'r planhigyn coca sy'n tyfu mewn rhannau o Dde America. Mae cocên ar gael ar ffurf cocên powdr (a gaiff ei ffroeni'n bennaf) a chrac cocên (a gaiff ei smygu'n bennaf).

Rhwng 2019 a 2020, amcangyfrifir y bu cynnydd o 11 y cant yn y cocên a weithgynhyrchir yn fyd-eang, i 1,982 o dunelli (a gynhyrchir ar burdeb o 100 y cant). Hon yw'r lefel uchaf a gofnodwyd erioed. Ar y pryd, amcangyfrifwyd bod 21 miliwn o ddefnyddwyr cocên ar draws y byd.[29.]

Ar lefel Ewropeaidd, mae lefel y cocên, y cocên sydd ar gael, a'r defnydd o gocên yn dal i fod yn uchel. Cocên yw'r ail gyffur a ddefnyddir amlaf yn Ewrop, ac amcangyfrifir bod 2.2 miliwn o bobl 15 i 34 oed (2.2 y cant o'r grŵp oedran hwn) wedi defnyddio cocên yn y flwyddyn ddiwethaf (EMCDDA 2022).[30.]

Dywedodd yr Arolwg Troseddu diweddaraf ar gyfer Cymru a Lloegr fod oddeutu 2 y cant o oedolion rhwng 16 a 54 oed wedi defnyddio cocên yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022).

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cynyddodd marwolaethau'n gysylltiedig â chocên yng Nghymru a Lloegr am y ddegfed flwyddyn yn olynol (marwolaethau a gofrestrwyd yn 2021). O'r 4,856 o farwolaethau a gofrestrwyd yn 2020 ac a oedd yn gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau, roedd 840 o farwolaethau yn ymwneud â chocên, sy'n gynnydd o 777 yn 2020.[31.]


29. UNODC, World Drug Report 2022 (Cyhoeddiad y Cenhedloedd Unedig, 2022). https://www.unodc.org/res/wdr2022/MS/WDR22_Booklet_4.pdf [fel ar 9 Mai 2023]
30. Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2022), European Drug Report 2022: Trends and Developments, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg; https://www.emcdda.europa.eu/publications/edr/trends-developments/2022_en [fel ar 9 Mai 2023]
31. Deaths related to drug poisoning in England and Wales: 2021 registrations; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 3 Awst 2022; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/ births deathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrug poisoning inenglandandwales/latest#drug-poisonings-from-selected-substances {fel 9 Mai 2023}

Yng Nghymru yn 2021-22, cafwyd 408 o dderbyniadau yn gysylltiedig â chocên mewn ysbytai, a'r rheini'n ymwneud â 365 o unigolion. Dyma ostyngiad yn nifer y derbyniadau o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.[32.]

Rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2023, cyflwynwyd 419 o samplau gan gredu mai cocên oedden nhw. Cafodd 6 y cant o'r samplau hyn (n=26) eu proffilio fel rhai a oedd yn cynnwys sylweddau eraill. Yr amnewidion a ganfuwyd amlaf oedd dim sylweddau gweithredol (n-6), parasetamol (n=5) a chetamin (n=3).

**W031816**

Date Received: 15 Mar 2023
Postcode: B26 -
Purchase Intent: MDMA
Package Label: Not Stated
Sample Colour: White, Colourless
Sample Form: Crystalline
Consumption Method: Not Stated
Self-Reported Effects: Not Stated
Sample Upon Analysis (Major): Dipentylone
Sample Upon Analysis (Minor): Ketamine, Cocaine, MDMA




Click to Enlarge

Roedd 17 y cant o'r samplau hyn (n=73) yn cynnwys cocên a sylweddau eraill.

Roedd mwyafrif helaeth y samplau hyn yn cynnwys cocên a levamisole. Meddyginiaeth gwrthlyngyr yw levamisole (a ddefnyddir i gael gwared ar lyngyr parasitig). Mae rhywfaint o dystiolaeth fod levamisole yn cynyddu effeithiau cocên in vivo, gan amlygu cydberthynas synergyddol bosibl rhwng y ddau.[33.]

## Cetamin

Tawelydd datgysylltiol sydd â nodweddion analgesaidd ac anesthetig yw cetamin, 2-(2-chlorophenyl)-2-(methylamino)-cyclohexan-1-one.

Dywedodd yr Arolwg Troseddu diweddaraf ar gyfer Cymru a Lloegr fod oddeutu 0.9 y cant o oedolion rhwng 16 a 54 oed wedi defnyddio cetamin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022). Dyma gynnydd o'r ffigur o 0.8 y cant a gofnodwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Yn ystod 2021-2022, cyflwynwyd 204 o samplau a brynwyd fel cetamin. O fewn y samplau hyn, gwelwyd nad oedd 6 y cant (n=12) yn cynnwys cetamin o gwbl. Yr amnewidyn a ganfuwyd amlaf oedd cocên (n=4).

Roedd un ar ddeg o samplau (5 y cant) yn cynnwys sylweddau eraill, gan gynnwys lidocaine (n=2) a benzocaine (n=2).

## MDMA

Symbylydd yw MDMA (3,4-Methylenedioxymethamphetamine) ac mae'n debyg o ran strwythur i amffetamin.

Yn Ewrop y caiff MDMA ei weithgynhyrchu'n bennaf, ac yng nghanol a gorllewin Ewrop gan mwyaf.

Mae Adroddiad Cyffuriau Ewropeaidd 2022 yn awgrymu bod 1.9 miliwn o oedolion ifanc (15-34) wedi defnyddio MDMA yn y flwyddyn ddiwethaf (1.9 y cant o'r grŵp oedran hwn). Mae'r amcangyfrifon ar gyfer pobl 15–24 oed yn uwch, gydag amcangyfrif bod 2.2 y cant (1.0 miliwn) wedi defnyddio MDMA yn y flwyddyn ddiwethaf (EMCDDA 2022).

32. Cloddio Data Cymru: Proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau2020-21; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Caerdydd; 2022; https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/cloddio-data-cymru-proffil-blynyddol-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2020-21/ [fel ar 9 Mai 2023]
33. Tallarida, C. S., Egan, E., Alejo, G. D., Raffa, R., Tallarida, R. J., a Rawls, S. M. (2014). Levamisole and cocaine synergism: a prevalent adulterant enhances cocaine's action in vivo. Neuropharmacology, 79, 590–595. https://doi.org/10.1016/j.neuropharm.2014.01.002 {fel ar 11 Mai 2023]

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, amcangyfrifodd Arolwg Troseddu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru a Lloegr fod 0.7 y cant o oedolion rhwng 16 a 54 oed wedi defnyddio MDMA yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

O'r 4,859 o farwolaethau'n gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau a gofrestrwyd yn 2021, roedd 67 yn ymwneud ag MDMA.[34.]

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn gan **WEDINOS**, cyflwynwyd 668 o samplau lle nodwyd bwriad i brynu MDMA. O'r samplau hyn, nid oedd 15 y cant (n=102) yn cynnwys MDMA o gwbl.

Yr amnewidion a ganfuwyd amlaf oedd caffein (n=45) a chathinonau (n=35).

| CATHINON | NIFER Y CANFYDDIADAU |
|---|---|
| 4-CHLOROMETHCATHINONE | 19 |
| EUTYLONE | 8 |
| DIBUTYLONE | 6 |
| 3-METHYLMETHCATHINONE | 1 |
| MEFFEDRONE | 1 |

34. Deaths related to drug poisoning in England and Wales: 2021 registrations; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 3 Awst 2022; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/ births deathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrug poisoning inenglandandwales/latest#drug-poisonings-from-selected-substances {fel ar 9 Mai 2023}

WEDI NOS

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Harm Reduction Wales Lleihau Niwed Cymru